



Ysgol Pentreuchaf

68. Polisi Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Nod

1. Sicrhau a meithrin datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol holl blant yr ysgol.
2. Paratoi'r plant ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau a gânt wrth fynd yn hyn.

Amcanion

1. Datblygu ymdeimlad o hunan barch yn y plentyn a pharch at bobl eraill yn yr ysgol y cartref ac mewn cylch ehangach.
2. Arwain y plant i weld ac ymdeimlo â rhyfeddodau a dirgelwch bywyd.
3. Arwain y plant i ofyn cwestiynau am ystyr bywyd a'u pwrpas yn y byd, gan geisio eu paratoi ar gyfer profiadau i ddod e.e. harddwch, dioddefaint a marwolaeth.
4. Meithrin ymwybyddiaeth gymdeithasol yn y plant.
5. Cynorthwyo'r plant i ddeall eu teimladau eu hunain.
6. Dysgu'r plant y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn iawn a'r hyn nad yw ddim, a rhwng gwirionedd a chelwydd.
7. Dangos fod gan pob cymdeithas ei safonau moesol gydag ymddygiad sydd yn dderbyniol ac yn anerbyniol yn y gymdeithas honno.
8. Arwain y plant i ddeall egwyddorion cyfle cyfartal i bawb a pharch at eiddo eraill.
9. Sicrhau fod plant yn ymwrthod yn llwyr â rhagfarn hiliol a phob anoddefgarwch.
10. Arwain y plant i fynegi eu barn a'u safonau'n wrthrychol gan barchu barn safonau a safbwyntiau eraill yr un pryd.

Canllawiau

1. Manteisir ar bob cyfle cwricwlaidd (gan gynnwys ABaCh) i hybu'r uchod.
2. Sicrhau amgylchedd chwaethus a chartrefol i bob plentyn yn yr ysgol.
3. Annog trafodaeth yn y plant.
4. Creu cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r cartref.
5. Manteisio ar asiantau allanol perthnasol ac ar arbenigedd aelodau'r cyhoedd gan eu gwahodd i'r ysgol - gweinidog, offeiriad, heddwch, milfeddyg, hanesydd a.y.y.b.
6. Sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu amrywiol ffyrdd o fynegi ei ymateb yn gadarnhaol a goddefgar i'w amgylchfyd a'i gymdeithas.
7. Cynnal gwasanaethau yn yr ysgol o dan arweiniad y Pennaeth neu athrawes arall neu yn achlysurol gan weinidog neu offeiriad lleol.
8. Bellach, mae nifer o bolisiau eraill a gweithgareddau megis rhai yn ymwneud â Dinasyddiaeth Byd Eang, Ysgol Eco a.y.y.b. yn berthnasol i'r maes hwn.
9. **Agwedd Ysbrydol** –
CA1 - gwybod bod pob person yn wahanol ond deall eu bod yn gyfartal o ran gwerth, deall bod gan bobl wahanol ddewisiadau, safbwyntiau a chredoau.
CA2 – cydnabod nodweddiad unigryw ac annibyniaeth unigolion, deall bod gan bobl wahanol gredoau sy'n llywio'r ffordd y maent yn byw, cydnabod bod yna ddirgelwch mewn bywyd a marwolaeth.
10. **Agwedd Foesol** -
CA1 – gwybod beth sy'n deg ac annheg a beth y credant sy'n dda ac yn ddrwg.
CA2 – gwybod bod pobl yn gwahaniaethu o ran yr hyn y credant sy'n dda ac yn ddrwg.
11. **Agwedd Gymdeithasol** -
CA1 – Gwybod sut i fod yn ffrind da, deall amrywiaeth y swyddogaethau o fewn teuluoedd a'r cyfraniad a wneir gan bob aelod.
CA2 – cydnabod a deall grym dylanwad a phwysau o du cyfoedion, deall y manteision o gael ffrindiau a theulu a'r sialensau a'r materion all godi, deall natur bwlio, gan gynnwys aflonyddu'r rhywiol, a'r niwed y gall ei achosi.
12. **Agwedd Ddiwylliannol** –
CA1 – Gwybod sut i werthfawrogi celfyddyd o bob math.
CA2 – deall fod gan bob cenedl ac ardal eu traddodiadau a'i diwylliannau eu hunain.

Casgliad

Mae cyfrifoldeb ar yr ysgol am ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y plant a cheisir ymateb i'r her yma yn bositif gan gofio mai un dylanwad yn unig yw'r ysgol yng nghanol dylanwadau eraill.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____